MENTER IAITH BRO MORGANNWG

"HYRWYDDO AC EHANGU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG"

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23



MENTER IAITH BRO MORGANNWG

# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mai 2022, bu newid sylweddol iawn o ran staffio Menter Iaith Bro Morgannwg. Fe benodwyd Heulyn Rees fel ein prifweithredwr i olynu Manon Rees O'Brien ac fe benodwyd Michael Goode fel ein swyddog datblygu newydd i olynu Manon Ifan. Mae gan y ddau y weledigaeth, yr argyhoeddiad a'r brwdfrydedd i adeiladu ar y seiliau cadarn sydd eisoes yn eu lle ac fe ddymunwn yn dda iddyn nhw yn eu gwaith.
Roedd y cyfnod rhwng 2022- 2023 yn gyfnod o ail afael unwaith yn rhagor ar ôl heriau covid a'r cyfnodau clo. Roedd yn braf ailgydio yn y gweithgareddau mwy ffurfiol a roedd yn braf i weld pawb yn medru ymgynnull unwaith yn rhagor heb orfod mesur pellter cymdeithasol a gwisgo masg.

Fe fanteisiwyd ar bob cyfle posib i greu amserlen fyddai'n hygyrch i bob cwr o'r Fro ac mae un golwg sydyn ar yr amserlen yn dangos pa mor amrywiol a dyfeisgar ydy'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig gan y Fenter. Y gobaith yw fod rhywbeth at ddant pawb - o'r babanod lleiaf yn eu bygis hyd at yr oedolion hynaf sy'n ymddiddori mewn hanes lleol.

Bu cryn edrych ymlaen at "Gŵyl Fach y Fro" ar Ynys y Barri wedi hualau covid.  Roedd y penderfyniad i symud yr Ŵyl i lawr tuag at yr Eastern Shelter a Chaffi Marco's yn llwyddiant mawr. Roedd y stondinau a'r gweithgareddau lliwgar yn denu'r llygad a roedd Glanfa Gwynfor yn fwrlwm o berfformiadau gan ysgolion Cymraeg y Fro. Gwych iawn oedd croesawu dwy ysgol cyfrwng Saesneg i berfformio ar y Lanfa hefyd. Heidiodd y dorf fwyaf erioed i'r Ŵyl ac mae'n wir i ddweud erbyn hyn, mai nid "Gŵyl Fach" mohoni hi bellach.

Rydym yn argyhoeddedig bod ein darpariaeth yn hollbwysig i geisio hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y Fro ac fe wneir hyn gyda chefnogaeth a charedigrwydd ein rhanddeiliaid. Rydym yn ddyledus iawn iddynt. Hoffem ddiolch i'n partneriaid, i'r bwrdd rheoli ac i bawb sy'n ein cynorthwyo yn ein hymdrechion. Diolch o galon hefyd i staff y Fenter am eu hymroddiad diflino a'u hagwedd broffesiynol.

Edrychwn ymlaen i'r dyfodol yn hyderus gan wneud bopeth o fewn ein gallu i gynyddu ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg yma ym Mro Morgannwg.

**GWENNO HUWS**

**CADEIRYDD**



# GAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR

Wedi dwy flynedd o addasu'n darpariaeth yn sylweddol o ganlyniad i effeithiau Covid 19 braf oedd cael dychwelyd i gynllunio darpariaeth mwy traddodiadol yn 2022/23, heb nifer o'r cyfyngiadau a fu arnom fel sefydliad. Dychwelodd Gŵyl Fach y Fro i fod yn ŵyl ar ei ffurf draddodiadol a braf oedd symud i leoliad newydd a mwy ar Ynys y Barri gan ddenu torf o 8,000. Yn ogystal, dychwelodd ein gweithgareddau cymunedol megis darpariaeth Bwrlwm yn ogystal â llawer o weithgareddau eraill i blant ac oedolion.

Er bod agweddau mwyaf traddodiadol ein darpariaeth wedi dychwelyd, mae sawl agwedd o ddarpariaeth y cyfnod clo wedi parhau, megis y sesiynau Zoom ar-lein. Sylweddolwyd pa mor werthfawr oedd y sesiynau ar-lein trwy fisoedd y gaeaf gan eu bod yn bwynt cyswllt gwerthfawr i nifer o ran y Gymraeg.

Bu 2022/23 yn gyfnod o ddatblygu ac o ail-sefydlu perthynas gyda'n partneriaid ac unigolion o fewn y gymuned. Mae'r cydweithio agos wedi bod yn allweddol yn ein gwaith o rymuso sefydliadau a chymunedau i weithredu yn Gymraeg - boed nhw'n gwmni masnachol, grŵp cymunedol neu sefydliad celfyddydol megis y Memo yn y Barri.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r holl bartneriaid sydd yn ein cefnogi drwy'r flwyddyn ac yn edrych ymlaen i barhau i adeiladu ar dŵf y Gymraeg ym Mro Morgannwg a ddatgelwyd yng nghyfrifiad 2021. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, ein partneriaid a'r gymuned i weithio at yr amcan o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg a chyrraedd y nôd o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

**PRIF WEITHREDWR**

**HEULYN REES**







# PRIF WASANAETHAU MENTER BRO MORGANNWG

## Clybiau Bwrwlm

## Darpariaeth Oedolion a Hamdden

## Gŵyl Fach y Fro

## Clybiau Wythnosol i Blant a Ieuenctid

## Gweithgareddau Cymunedol a theuluol

## Ffonlyfr

## Hyrwyddo Gweithgareddau a Chefnogi Sefydliadau

## Grymuso Cymunedau





### Blaenoriaethau'r Rhaglen Waith 2022-23

- Ehangu ar y ddarpariaeth yng Ngŵyl Fach y Fro
- Cryfhau partneriaethau o fewn y Sir
- Datblygu darpariaeth i oedolion o fewn y Sir yn cynnwys digwyddiadau cerddorol, sesiynau addysgol a gweithgareddau lles
- Targedu rhieni ifanc gan hyrwyddo manteision addysg Gymraeg

# PLANT A PHOBL IFANC

Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn amrwyiol iawn yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cynlluniau gofal plant, sesiynau chwarae agored mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Fro, clybiau, gweithdai, digwyddiadau celfyddydol, sesiynau amser stori a grwpiau i rieni a phlant.



**GWEITHGAREDD**
**293**

**MYNYCHWYR:**
**4,572**



# OEDOLION A'R GYMUNED

Gwelwyd tŵf mawr yn y ddarpariaeth i oedolion yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i nawdd gan y Loteri Treftadaeth.

Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys elfennau megis sgyrsiau ar-lein, teithiau cerdded, gweithdai, perfformiadau cerddorol, dosbarthiadau addysg oedolion, gigs a llawer mwy.

**GWEITHGAREDD**
**113**

**MYNYCHWYR**
**1,770**







# IEUENCTID

Gwelwyd nifer fawr o weithgarddau i ieuenctid yn cael eu cynnal o ganlyniad i nawdd gan Haf o Hwyl. Roedd rhain yn cynnwys gweithdai celf, graffiti, merlota a padlfyrddio. Parhawyd i weithio'n agos gyda phartneriaid megis yr Urdd trwy gefnogi Clwb Ieuenctid y Barri gyda gweithgareddau amrwyiol. Yn ogystal, trefnwyd nifer o gigs rhanbarthol i ieuenctid.

**GWEITHGAREDD**
**60**

**MYNYCHWYR**
**573**

# GŴYL FACH Y FRO 2022

**Braf oedd dychwelyd i Ynys y Barri a gweld yr ŵyl yn tyfu ym mhellach yn 2022 . Mae'rŵyl yn mynd o nerth i nerth a rhai o gerddorion gorau Cymru wedi perfformio, yn cynnwys Bwncath, Huw Chiswell a MR. Yn ogystal, rydym yn hynod o ddiolchgar bod bob ysgol Gymraeg yn y Sir yn cefnogi'r ŵyl a braf yw gweld nifer cynyddol o ysgolion di-Gymraeg yn ymrwymo i'r dathliadau.**

"ROEDD Y LLEOLIAD NEWYDD YN WYCH A BRAF OEDD GWELD RHAI O FANDIAU GORAU CYMRU YMA YN Y BARRI . DIOLCH AM DREFNU GŴYL ARBENNIG"

YMWELWYR: 8,000+

GWERTH ECONOMAIDD £150,000+

9 BAND

20+ PARTNER












# DIOLCH I'N HOLL BARTNERIAID, NODDWYR, CEFNOGWYR A DEFNYDDWYR GWASANAETH!









## menterbromorgannwg.cymru

Rhif elusen:1179555 Rhif Cwmni: 8867706

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

MENTER IAITH
BRO MORGANNWG

Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**